O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 2838 (Cy. 252)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 2838 (Cy. 252)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *28 Hydref 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Hydref 2008

Yn dod i rym *31 Rhagfyr 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**) fel a ganlyn parthed

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (W.47), 2000/3382

blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008.

(2) Yn lle atodlen 4, rhoddir yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

28 Hydref 2008

(W.220), 2001/3910 (W.322), 2002/3054 (W.289), 2003/3211 (W.304), 2004/3232 (W.280), 2005/3345 (W.259), 2006/3347 (W.307) a 2007/3343 (W.295).

YR ATODLEN

Rheoliad 2

“SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

Billing authority area	**Prescribed figure**
Blaenau Gwent	54,000
Bridgend	104,800
Caerphilly	132,600
Carmarthenshire	141,700
Cardiff	253,600
Ceredigion	64,000
Conwy	89,200
Denbighshire	76,800
Flintshire	117,800
Gwynedd	94,000
Isle of Anglesey	54,700
Merthyr Tydfil	43,100
Monmouthshire	69,100
Neath Port Talbot	108,400
Newport	107,400
Pembrokeshire	92,200
Powys	104,600
Rhondda Cynon Taf	182,400
Swansea	182,200
Torfaen	70,800
Vale of Glamorgan (The)	95,900
Wrexham	103,700

”